**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/3042/22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
SeneddFinance@senedd.cymru

21 Tachwedd 2022

Annwyl Peredur,

Rydym yn ysgrifennu atoch ynglŷn ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar drefniadau cyllido yn dilyn gadael yr UE.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am ystyried y maes pwysig hwn ac am gyhoeddi eu hadroddiad.

Mae'n dda gennym dderbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae ein hymateb ynghlwm.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Cyllid:**
Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE. Mae'n bwysig ac yn amserol cyfrannu at y drafodaeth ynghylch y mater hollbwysig hwn am ein bod o'r farn bod dull gweithredu Llywodraeth y DU yn peryglu swyddi a thwf yng Nghymru a'i fod yn enghraifft o dresmasu'n fwriadol ar faes polisi datganoledig gan ddefnyddio'r pwerau cymorth ariannol yn Neddf Marchnad Fewnol y DU, sy'n hollol annerbyniol.

Er i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU gael ei chyhoeddi gyntaf yn 2017, nid oes yr un geiniog o gyllid i ddisodli cyllid yr UE wedi cyrraedd Cymru tra byddai rhaglenni cyllido newydd yr UE wedi dechrau bron i ddwy flynedd yn ôl ym mis Ionawr 2021.

Ar y llaw arall, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi fframwaith ar gyfer cyllid i ddisodli cronfeydd yr UE ar waith, sef y *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*, a ddatblygwyd ar y cyd dros ddwy flynedd â'r OECD a phartneriaid yng Nghymru o lywodraeth leol, y sector addysg uwch, y sector addysg bellach, busnesau, a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Roedd y Fframwaith hefyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Rydym yn derbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor sydd wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru. O ran argymhellion 1, 2, 6, 8, 9, a 12-14 y Pwyllgor, sydd wedi'u cyfeirio at Lywodraeth y DU yn unig, rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei gymorth parhaus ac am godi'r rhain. Bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i weld ymateb Llywodraeth y DU i'r argymhellion hyn a'i bwriadau yn y dyfodol, gan gynnwys darparu cyllid hirdymor i ddisodli cronfeydd yr UE erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Ers i Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol roi tystiolaeth ym mis Mehefin, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i godi ei phryderon, yn enwedig mewn perthynas â'r £1.1 biliwn o gyllid i ddisodli cyllid yr UE a gollir, y ffaith nad yw datganoli yn cael ei barchu a'r fethodoleg ddyrannu a ddefnyddiwyd, gyda chyfres o Ysgrifenyddion Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Cangellorion y Trysorlys a Phrif Ysgrifenyddion y Trysorlys.

Roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin eisoes wedi'i thanariannu ond mae Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU ar 17 Tachwedd yn golygu bod cyfanswm gwerth y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y DU wedi'i ostwng £400m i £2.2 biliwn erbyn diwedd 2024/25. Unwaith eto, mae hyn yn dangos methiant clir ar ran Llywodraeth y DU i gyflawni'r addewid yn ei Maniffesto i ddarparu cyllid llawn i ddisodli cronfeydd yr UE ac mae'n creu heriau enfawr i economi Cymru.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn agored i ddeialog bellach â Llywodraeth y DU sy'n cynnwys trafodaeth ynghylch lefelau ariannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ynghyd â sefydlu swyddogaeth gwneud penderfyniadau ar y cyd wirioneddol i Weinidogion er mwyn gwella effaith a gwerth am arian y Gronfa yng Nghymru.

Yn benodol, mae'r cyd-destun bellach wedi newid ac oherwydd yr argyfwng economaidd a'r diffyg mewn cyllid cyhoeddus, mae angen ystyried cyfeiriad y Gronfa

Ffyniant Gyffredin yn y dyfodol, gan gynnwys cynllun Lluosi, er mwyn cyflawni canlyniadau economaidd gwell. Yng Nghymru, mae cronfeydd yr UE wedi cefnogi rhaglenni hollbwysig i Gymru gyfan a oedd yn hanfodol ar gyfer cynhyrchiant a thwf megis Busnes Cymru, prentisiaethau, y Banc Datblygu a'n rhaglenni arloesi: ac eto, o dan drefniadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ni all Llywodraeth Cymru fanteisio ar y gronfa hon er mwyn cefnogi'r cynlluniau hollbwysig hyn.

Roeddem yn gallu cydweithio'n fwy llwyddiannus ar Borthladdoedd Rhydd. Yn ein barn ni, nid yw'n rhy hwyr i Lywodraeth y DU efelychu'r dull hwn o weithredu er mwyn darparu cronfeydd a buddsoddiadau eraill y DU, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin, er mwyn inni allu mynd i'r afael â'r heriau strwythurol hirdymor a chreu Cymru gryfach, decach a gwyrddach.

Argymhelliad 1. Mae’r Pwyllgor yn argymell, o ran cronfeydd y dyfodol, y dylai Llywodraeth y DU roi ystyriaeth bellach i:

- yr amser a’r adnoddau sydd eu hangen ar awdurdodau lleol i baratoi ceisiadau;
- darparu cyllid tebyg ar sail angen; a
- osgoi sefyllfa lle mae pwysau amser yn dylanwadu ar y mathau o brosiectau a gaiff eu cynnwys mewn cynigion.

Ymateb: Dd/G i Lywodraeth Cymru

Argymhelliad 2. Mae’r Pwyllgor yn annog Llywodraeth y DU i sicrhau bod y mecanweithiau sy’n ymwneud â’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn hwyluso trafodaethau ystyrlon â Llywodraeth Cymru a llywodraethau datganoledig eraill, er mwyn sicrhau’r buddsoddiad mwyaf posibl yng Nghymru

Ymateb: Dd/G i Lywodraeth Cymru

Argymhelliad 3. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fydd/sut y bydd yn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r Gronfa Ffyniant Gyffredin a pha fecanweithiau y bydd yn eu defnyddio i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod cyllid yn cyd-fynd â ffrydiau ariannu a pholisïau eraill yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir y dylai cyllid ar gyfer swyddogaethau datganoledig ddod i Lywodraeth Cymru er mwyn i Weinidogion Cymru bennu blaenoriaethau a chyfeiriad strategol a bod yn gyfrifol ac yn atebol am ei weinyddu a'i reoli. Bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu gwasanaethau, atebolrwydd aneglur, gwerth gwael am arian, bylchau yng nghyllid sectorau a thirwedd ariannu anghydlynol lle mae symiau bach o arian wedi'u gwasgaru'n denau ar brosiectau lleol byrdymor.

Os bydd Llywodraeth y DU yn amharod i gefnogi ein safbwynt a chytuno ar rôl gwneud penderfyniadau ar y cyd i'r Gweinidog cyfrifol yn Llywodraeth Cymru, ni chaiff adnoddau Llywodraeth Cymru eu defnyddio er mwyn helpu Llywodraeth y DU i roi ei chynlluniau i'r DU gyfan sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig ar waith.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n partneriaid yng Nghymru sydd o dan bwysau enfawr oherwydd bylchau yng nghyllid sectorau ac amserlenni anymarferol ar gyfer datblygu cynlluniau a phrosiectau a rhoi gweithdrefnau gweinyddu a llywodraethu ar waith.

Mae hyn yn cynnwys parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Strategol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, a gadeirir gan Huw Irranca-Davies AS, er mwyn rhannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd ymhlith partneriaid yng Nghymru yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Cyhoeddir papurau a chofnodion y Fforwm hwn yma.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn darparu rhagor o wybodaeth am elfen amddifadedd y fformiwla ddosbarthu a sut y cytunwyd ar hynny.

Ymateb: Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Ni chytunodd Llywodraeth Cymru ar fformiwla ddosbarthu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU.

Awgrymodd Llywodraeth Cymru fformiwla â phwysoliad o 70% ar gyfer angen, yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a phwysoliad o 30% ar gyfer poblogaeth. Mae MALIC yn fynegai cyfansawdd cyffredinol cydnabyddedig sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o ddangosyddion angen. Mae'r penderfyniad i gynnwys elfen poblogaeth syml ychwanegol yn tueddu i rannu dyraniadau yn gyfartal rhwng ardaloedd a bwriadwyd iddo fodloni disgwyliad Llywodraeth y DU i gael fformiwla sy'n darparu dyraniadau eang eu cwmpas.

Mae gan y fformiwla a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU bwysoliad o 40% ar gyfer poblogaeth, pwysoliad o 30% ar gyfer MALIC a phwysoliad o 30% ar gyfer mynegai Cronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU (sef y gronfa beilot ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin). Mae MALIC a Mynegai'r Gronfa Adfywio Cymunedol yn fynegeion cyfansawdd sy'n seiliedig ar amrywiaeth eang o ddangosyddion sylfaenol. Felly, mae'r dull hwn o weithredu yn un cymhleth iawn. Mae gan fynegai'r Gronfa Adfywio Cymunedol bwysoliad llawer uwch na MALIC ar gyfer dangosyddion sy'n tueddu i ffafrio ardaloedd mwy gwledig.

Cynhwyswyd MALIC yn y fformiwla gyhoeddedig mewn ffordd nad yw'n pwysoli ar gyfer gwahaniaethau ym maint poblogaethau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Fel y nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, mae hyn yn golygu bod ardaloedd mwy poblog yn cael llai o gyllid y pen nag ardaloedd sydd â'r un proffil economaidd-gymdeithasol ond poblogaethau llai o faint. Nid oes unrhyw sail resymegol glir dros y dull hwn o weithredu. Mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio methodolegau

gwahanol ym mhob gwlad. Mae ei nodyn methodoleg ei hun yn cydnabod y broblem sy'n ymwneud â'r ffordd y mae MALIC wedi'i gynnwys yn y fformiwla ar gyfer Cymru ond dywed: “However, WIMD is only being used in Wales, where there are a smaller number of Local Authorities with smaller variations in populations”. Mewn gwirionedd, mae gan Gaerdydd, sef yr awdurdod lleol mwyaf poblog, dros chwe gwaith gymaint o drigolion â'r awdurdod lleol â'r boblogaeth leiaf, sef Merthyr Tudful.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i bryderu am fformiwla ddyrannu gyhoeddedig y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Ar gyfer dyraniadau yng Nghymru, nid yw'n glir pam y dylai mynegai Cronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU gael yr un pwysoliad â MALIC a ddefnyddir ac a gydnabyddir yn eang.

Argymhelliad 5. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod mwy o ymgysylltu’n digwydd rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i egluro sut y bydd y rhaglen Lluosi yn gweithredu yng Nghymru

Ymateb: Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'n partneriaid mewn llywodraeth leol, yn dal i bryderu bod y rhaglen rhifedd i oedolion Lluosi yn rhy gul ei ffocws ac y bydd yn arwain at ddyblygu darpariaeth. O dan gynigion presennol Llywodraeth y DU, nid yw'n realistig gwario dyraniad Lluosi o fewn cyfnod cyfyngedig y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae angen mwy o hyblygrwydd, gan gynnwys ehangu cwmpas Lluosi er mwyn cynnwys sgiliau digidol a sgiliau llythrennedd a gwarant y gallai unrhyw danwariant ar raglen Lluosi gefnogi gweithgareddau eraill o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin - gan gynnwys ein cynlluniau twf cenedlaethol megis Busnes Cymru a phrentisiaethau - er mwyn helpu i liniaru gwastraff, gwerth gwael am arian a chanlyniadau gwael i unigolion.

Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i godi'r pryderon hyn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg. Rydym hefyd yn awyddus iawn i weld cyfarfodydd i drafod rhaglen Lluosi, sy'n cynnwys swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, yn cael eu hadfer yng Nghymru er mwyn inni allu cydweithio i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglen Lluosi ar ei ffurf bresennol.

Argymhelliad 6. O ystyried bod addysg yn faes datganoledig, mae’r Pwyllgor yn siomedig gyda’r dull o ddyrannu cyllid drwy’r rhaglen Lluosi ac yn argymell bod Llywodraeth y DU yn rhoi hyblygrwydd i wario arian o’r rhaglen Lluosi mewn meysydd eraill.

Ymateb: Dd/G i Lywodraeth Cymru

Argymhelliad 7. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn asesu’r rhaglen Lluosi ac yn ystyried ei hymrwymiadau ariannu presennol yn y maes hwn, gyda’r nod o osgoi dyblygu dulliau a chynlluniau presennol eraill.

Ymateb: Derbyn

Mae sgiliau yn fater datganoledig yng Nghymru ond nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw rôl i Gymru mewn perthynas â Lluosi. Yn lle hynny, mae Llywodraeth y DU wedi nodi'n glir y dylai Cynlluniau Buddsoddi Rhanbarthol o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a ddatblygir gan awdurdodau lleol ddangos sut y defnyddir y cyllid hwn sydd wedi'i glustnodi i roi rhaglen Lluosi ar waith ym mhob ardal leol.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn ysgogi buddsoddi mewn sgiliau drwy ddatblygu ymatebion sy'n seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol. Mae gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran dadansoddi darpariaeth a dylanwadu arni er mwyn cefnogi twf rhanbarthol. Mae aelodau byrddau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o sectorau economaidd perthnasol, darparwyr addysg, awdurdodau lleol, y trydydd sector, cyflogwyr a chyrff cynrychioliadol diwydiant ac ati. Gan fod y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gyrff anstatudol, telir cyllid Llywodraeth Cymru i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) sydd, yn ei thro, yn rhoi contractau a chyllid i gorff atebol ar ran pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Fel y prif gyfrwng yng Nghymru i ystyried materion sy'n ymwneud â darparu sgiliau a chyflogadwyedd yn eu rhanbarth, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol asesu'r trefniadau ar gyfer rhoi rhaglen Lluosi ar waith ym mhob un o'u hardaloedd rhanbarthol er mwyn helpu i osgoi dyblygu â chynlluniau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 8 Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y DU yn darparu rhagor o wybodaeth am y tîm sy’n cael ei sefydlu yng Nghymru i weithredu’r Cronfeydd, gan gynnwys yr adnoddau a’r staff y bydd Llywodraeth y DU yn eu defnyddio yng Nghymru.

Ymateb: Dd/G i Lywodraeth Cymru

Argymhelliad 9. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y DU yn darparu rhagor o wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau fforwm gweinidogol y DU a fydd yn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r Gronfa, yn ogystal ag unrhyw ymgysylltiad a chyfrifoldebau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Dd/G i Lywodraeth Cymru

Argymhelliad 10. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ynghylch sut y bydd ei swyddogion yn ymwneud â grwpiau partneriaeth rhanbarthol a pha rôl y byddant yn ei chwarae wrth ddatblygu cynlluniau buddsoddi.

Ymateb: Derbyn

Cyflwynwyd pedwar cynllun buddsoddi rhanbarthol ar gyfer blwyddyn gyntaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan awdurdodau lleol yng Nghymru erbyn 1 Awst ac roedd disgwyl i Lywodraeth y DU gymeradwyo'r cynlluniau hyn a darparu'r cyllid o fis Hydref ymlaen. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl gwneud penderfyniadau o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae'n galonogol gweld y cyfeiriadau y mae awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn y cynlluniau buddsoddi hyn at gysoni â'n *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru*, y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith a'r cydweithredu gan awdurdodau lleol yn ystod yr haf wedi digwydd yn erbyn cefndir pwysau enfawr a achoswyd gan amserlenni anymarferol a dyraniadau cyllid is a osodwyd arnynt gan Lywodraeth y DU.

Rydym bob amser wedi nodi'n glir ein bod yn cefnogi'r cyfle i fabwysiadu dulliau gweithredu cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn darparu ar gyfer rhoi ystyriaeth fwy strategol i ble y gellir targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl. Yn ein *Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol*, daethpwyd i gonsensws mai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fydd y corff gwneud penderfyniadau atebol ar lefel ranbarthol er mwyn helpu i sicrhau cyllid yn lle cronfeydd yr UE. Mae pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig bellach yn gweithredu ledled Cymru a byddem o blaid defnyddio'r strwythurau presennol hyn fel y cyfrwng llywodraethu ar gyfer cyflwyno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gallai'r rhain gael eu cefnogi gan baneli cynghori neu bartneriaethau traws-sector newydd y mae eu gweithgarwch llywodraethu yn canolbwyntio ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn unig ac a fyddai'n gyfrifol am roi cyngor a chymorth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth iddynt gytuno ar gynlluniau buddsoddi ac ymyriadau o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Rydym yn credu'n gryf y dylai unrhyw wahoddiadau i unrhyw banel cynghori ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin neu unrhyw bartneriaeth ategol arall ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin gael eu hymestyn i gynnwys Aelodau'r Senedd ac na ddylid cyfyngu aelodaeth o'r rhain i Aelodau o Senedd y DU yn unig, fel y dymuna Llywodraeth y DU.

Er ein bod wedi nodi'n glir na fyddwn yn defnyddio ein hadnoddau i weithredu polisïau Llywodraeth y DU sy'n mynd o'r tu arall i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru, rydym yn ymrwymedig i'n partneriaid yng Nghymru. Rydym ar ddeall bod awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau partneriaeth gwahanol; er enghraifft, mae rhanbarth De-orllewin Cymru yn gweithio drwy bartneriaethau/byrddau adfywio presennol ym mhob ardal ALl, yn ogystal â thrwy gyfarfodydd cydweithio rhanbarthol misol. Byddwn yn parhau i gynnal cydberthnasau gwaith agos â'r rhain a phartneriaethau eraill gan gynnwys, er enghraifft, y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol.

Fel y nodwyd yn ein hymateb i argymhelliad 3, byddwn hefyd yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Strategol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru er mwyn rhannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys am y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ymhlith partneriaid yng Nghymru.

Argymhelliad 11. Wrth bontio o gronfeydd yr UE i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i nodi unrhyw fylchau posibl ac yn gofyn am ragor o wybodaeth am y meini prawf a'r amgylchiadau lle y gallai Llywodraeth Cymru ymyrryd.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn deall bod y tarfu, y diffyg hyblygrwydd a'r lleihad mewn cyllid yn creu sefyllfa heriol iawn i lawer o sefydliadau yng Nghymru sydd wedi cael cyllid o gronfeydd yr UE yn y gorffennol. Mae llawer o sectorau o economi Cymru bellach yn nodi bod staff yn cael eu diswyddo a bod rhaglenni hollbwysig yn cau mewn meysydd megis ymchwil ac arloesi, sgiliau a chymorth i bobl sy'n agored i niwed.

Mae'r sefyllfa hon sydd eisoes yn annerbyniol yn cael ei gwaethygu gan yr oedi parhaus ar ran Llywodraeth y DU cyn cymeradwyo cynlluniau buddsoddi o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac, yn unol â Datganiad yr Hydref, y ffaith ei bod wedi lleihau cyfanswm gwerth y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gwrthod rhoi caniatâd i awdurdodau lleol wario o'u dyraniadau o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2022/23.

Ni all Llywodraeth Cymru lenwi bylchau ariannol sy'n deillio o golli mwy nag £1.1 biliwn o gyllid i ddisodli cronfeydd strwythurol yr UE a chyllid gwledig. Ni all Llywodraeth Cymru gael cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac rydym eisoes yn defnyddio arian o Gyllideb ddiwethaf Cymru i gefnogi cynlluniau i Gymru gyfan megis Prentisiaethau a Busnes Cymru sy'n hollbwysig ar gyfer cynhyrchiant a thwf.

Byddwn yn parhau i godi'r pryderon hyn gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i ailystyried ei ddull gweithredu yn enwedig o ystyried yr argyfwng economaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian ac effaith economaidd. Rydym hefyd yn cysylltu'n rheolaidd â CLILC ac awdurdodau lleol er mwyn ceisio cwtogi cymaint â phosibl ar y tarfu a achosir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n llawer llai o gymharu â chronfeydd yr UE ac nad yw'n ystyried datganoli yng Nghymru.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y DU yn cynyddu hyblygrwydd i symud Cronfeydd Ffyniant Cyffredin rhwng blynyddoedd ariannol a rhwng prosiectau, yn debyg i'r hyn a gynigir drwy raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE. Mae'r Pwyllgor yn galw ymhellach am fwy o hyblygrwydd o ran sut y caiff tanwariant ei drin.

Ymateb: Dd/G i Lywodraeth Cymru

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y DU yn egluro ei chynlluniau hirdymor ar gyfer disodli cyllid yr UE a statws y Gronfa Ffyniant Gyffredin y tu hwnt i 2025. Os bwriedir iddi gael ei disodli gan gronfa olynol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod angen gwneud gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar unwaith.

Ymateb: Dd/G i Lywodraeth Cymru

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw olynydd i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin bresennol:

- yn mabwysiadu dull gweithredu tymor hwy a bod ei hyd yn debycach i raglenni cyllid strwythurol yr UE na'r Gronfa Ffyniant Gyffredin bresennol; ac
- yn anelu at greu twf a chynyddu gwerth ychwanegol gros yng Nghymru.

Ymateb: Dd/G i Lywodraeth Cymru

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod corff annibynnol yn asesu honiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch lefelau cyllid yn y dyfodol a sut y mae hyn yn cymharu â chyllid blaenorol yr UE.

Ymateb: Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

Byddem yn fodlon gweld corff annibynnol yn asesu honiadau Llywodraeth Cymru ynghylch lefelau cyllid yn y dyfodol a sut mae hyn yn cymharu â chyllid blaenorol yr UE.

Ar 4 Mai 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru a'r cyllid y byddai Cymru yn ei golli o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid yr UE.

Goblygiadau Ariannol: Dim

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y materion ariannu a drafodwyd yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodir yn y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor Cyllida'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bob trafodaeth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i'r Pwyllgorau pryd y disgwylir i gyfarfodydd gael eu cynnal, yr eitemau ar yr agenda sydd i'w trafod a chrynodeb o'r pwyntiau allweddol y mae'r Gweinidog Cyllid yn tueddu i'w codi, yn ogystal â darparu adroddiad ar y trafodaethau hynny yn dilyn y cyfarfod. Cyhoeddir cyd-hysbysiad gan bedair gwlad y DU ar ôl pob cyfarfod hefyd.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y sefyllfa o ran datrys anghydfodau gyda Llywodraeth y DU a phryd/sut y gellid defnyddio'r broses i ddatrys anghydfodau ynghylch ariannu.

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddwyd y Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ym mis Ionawr 2022. Rydym wedi cytuno i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau sydd wedi deillio o'r Adolygiad fel sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol.

Mae'r diwygiadau yn cynnig strwythurau a phrosesau er mwyn galluogi ymgysylltu ystyrlon a mecanwaith sy'n cadarnhau hawl pob llywodraeth i atgyfeirio ac uwchgyfeirio unrhyw anghydfod.

Mae'n cyflwyno peirianwaith mwy cadarn, gan gynnwys Cyngor i benaethiaid llywodraeth, a gadeirir gan Brif Weinidog y DU, gydag ysgrifenyddiaeth ddiduedd, Pwyllgorau Sefydlog Rhyngweinidogol - un sy'n ymdrin â chysylltiadau rhynglywodraethol yn gyffredinol ac un sy'n canolbwyntio ar gyllid - er mwyn ystyried materion strategol a thrawsbynciol ac mae dod â gweithgarwch ymgysylltu Gweinidogion (cyfarfodydd pedrochrog) o fewn fframwaith cadarn, a elwir yn Grwpiau Rhyngweinidogol.

Mae'r mecanwaith arfaethedig ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau yn amlinellu hawl pob llywodraeth i atgyfeirio ac uwchgyfeirio unrhyw anghydfod, gan gynnwys dileu rhwystrau i godi anghydfodau ac mae'n gofyn am gadeiryddion annibynnol a threfniadau ysgrifenyddiaeth annibynnol. Mae'n cynnwys rhagdybiaeth o blaid mewnbwn annibynnol, naill ai drwy gyngor neu drwy gyfryngu a mwy o dryloywder er mwyn hwyluso gwaith craffu deddfwriaethau a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Fel y nodir yn y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bob trafodaeth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw fwriadau i ddefnyddio'r broses datrys anghydfodau yn ffurfiol fel y nodir yn yr adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 18. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y cynnydd o ran datrys y materion a nodwyd mewn perthynas â ffrydiau ariannu eraill, gan gynnwys; Erasmus+, Horizon Ewrop a Chydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Ymateb: Derbyn

Nid yw cysylltiad y DU â rhaglen Horizon Ewrop wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr UE eto. Ers ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mehefin, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi datganiad sy'n ymdrin â chyfarfod ymgyngoriadau Pwyllgor Arbenigol y DU-UE ar Gyfranogi yn Rhaglenni'r Undeb a gynhaliwyd ym mis Medi 2022.

Oherwydd yr oedi parhaus cyn ffurfioli cysylltiad y DU, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi (1 Medi) estyniad i'w rhwyd ddiogelwch ar gyfer ymgeiswyr o'r DU sy'n gwneud cais i Horizon Ewrop. Dim ond rhoi sicrwydd am y flwyddyn hon a wna'r

warant, gan gwmpasu galwadau Horizon Ewrop a ddaw i ben ar neu cyn 31 Rhagfyr 2022. Roedd y cyhoeddiad yn cynnwys manylion a gyhoeddwyd ar 20 Gorffennaf ynglŷn â sut y bydd y DU yn newid i raglen ymchwil a datblygu newydd os na all gysylltu â Horizon Ewrop, Copernicus nac Euratom. Mae hyn yn cynnwys asesiadau gan UKRI o geisiadau i Horizon na fyddant yn gymwys mwyach a chyllid i gymryd rhan fel trydedd wlad hyd at fis Mawrth 2025. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r trafodaethau ar gysylltu.

Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd 2021-2027 ETC (heblaw PEACE PLUS). Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraethau Datganoledig i ystyried ffyrdd eraill y gallai ein rhanddeiliaid barhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cydweithredu drwy ddarpariaethau Trydedd Wlad yn rheoliadau'r UE, ar sail 'fesul prosiect' o leiaf.

Rydym ar ddeall, mewn egwyddor, nad yw'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) yn gwrthwynebu'r syniad o bartneriaid o'r DU yn cymryd rhan yn rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol 2021-2027, ar y sail y byddant yn dod â'u cyllid eu hunain gyda nhw. Fodd bynnag, byddai angen i Lywodraeth y DU gytuno ar hyn er mwyn iddynt allu cymryd rhan. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi hysbysu Aelod-wladwriaethau'r UE am ei safbwynt ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU i egluro ei safbwynt hithau ar y mater.

Mae Penderfyniad y DU yn golygu na fu'n bosibl datblygu rhaglen i olynu rhaglen drawsffiniol Iwerddon a Chymru drwy Fframwaith yr UE. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu trafodaethau ac ystyried opsiynau i ddiogelu'r manteision a sicrhawyd gan y rhaglen.

O ran Erasmus+, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno *Taith*, sef rhaglen gyfnewid ryngwladol Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn gwerth £65m yn darparu ar gyfer pob sector a chyfranogwr a oedd yn cael eu cefnogi gynt gan raglen Erasmus+. Mae *Taith* hefyd yn helpu i wella cydberthnasau ledled Ewrop sydd wedi'i niweidio gan benderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â chymryd rhan yn Erasmus+. Trafododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg *Taith* a threfniadau cyfnewid Cymru ag Ewrop yn Senedd Ewrop ar 25 Hydref 2022.

Rydym hefyd yn credu'r gryf ei bod yn hanfodol na fydd Llywodraeth y DU yn lleihau nac yn dileu ei hymrwymiad i Gynllun Turing, sef rhaglen fyd-eang y DU ar gyfer astudio, gweithio a byw dramor, sy'n disodli rhai elfennau o Erasmus+.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r rhagamcanion ariannol sy'n ymwneud â'r £795 miliwn sy'n weddill o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Ymateb: Derbyn

Mae hon yn adeg hollbwysig i randdeiliaid yng Nghymru wrth i raglenni cyllido 2014-2020 yr UE dynnu at eu terfyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo'r holl gyllid ar gyfer rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa

Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn llawn ac mae sawl prosiect a all gyflawni gweithgareddau hyd at ddiwedd haf 2023 a hawlio gwariant ar gyfer gweithgareddau hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2023.

Mae'n anochel bod proffiliau cyflawni prosiectau yn newid yn ystod y rhaglenni amlflwyddyn 10 mlynedd er mwyn ystyried sawl ffactor, gan gynnwys amodau economaidd ac amodau'r farchnad lafur sy'n newid. Er enghraifft, bu'n rhaid atal rhai gweithgareddau dros dro yn ystod pandemig byd-eang COVID-19, yn enwedig y rhai a oedd yn cael eu cefnogi drwy ERDF. Ar y cyfan, mae ERDF yn cefnogi datblygiadau seilwaith yn bennaf sydd â phroffiliau gwariant hwy ac mae ESF yn cefnogi gweithgareddau refeniw yn bennaf a fydd yn hawlio arian yn gyflymach.

Gweddill y gwariant ar raglenni ERDF ac ESF yng Nghymru yw £619 miliwn (ar 31 Hydref 2022), ac mae gwariant wedi bod yn cynyddu ers i Lywodraeth Cymru gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Mehefin eleni. Yn ystod y tri mis nesaf, yn seiliedig ar broffiliau gwariant ar brosiectau presennol, rydym yn disgwyl £170 miliwn arall o wariant (yn seiliedig ar gyfradd gynllunio o £1: €1.17) i'w hawliau gan randdeiliaid. Fodd bynnag, gwyddom y bydd yr amcanestyniadau ariannol hyn yn newid ac yn amrywio gryn dipyn dros y misoedd i ddod ac yn ystod 2023. Bydd hyn i'w briodoli i amrywiadau mewn cyfraddau newid ac ymgais rhanddeiliaid i fynd i'r afael â heriau allanol ychwanegol gan gynnwys y rhai a grëir gan yr argyfwng costau byw, pwysau chwyddiannol a'r argyfwng ariannol ac economaidd.

Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE a rhaglenni Buddsoddi 2014–2020, o dan gadeiryddiaeth Mike Hedges AS, yn parhau i fonitro cynnydd y rhaglenni, gan gynnwys cyllid sydd wedi'i neilltuo a gwariant. Mae papurau'r cyfarfodydd ar gael yn https://llyw.cymru/pwyllgor-monitro-rhaglenni-cymru. Mae data ar gynnydd y rhaglenni hefyd ar gael yn Cynnydd y rhaglenni: Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020 | LLYW.CYMRU.

Argymhelliad 20. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cyhoeddi manylion am swm a phroffil y cyllid etifeddol y mae Cymru i fod i’w gael gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

Ymateb: Mae'r argymhelliad hwn wedi'i anelu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ei rhan yn yr argymhelliad.

O dan drefniadau'r UE, mae cylchoedd cyllido'r UE yn rhai amlflwyddyn, h.y. maent yn cwmpasu 10 mlynedd a cheir dwy flynedd o orgyffwrdd rhwng rhaglenni presennol a rhaglenni newydd. Mae hyn yn golygu y byddai rhaglenni newydd yr UE wedi dechrau o fis Ionawr 2021, gyda WEFO yn gallu dyfarnu/neilltuo cyllid o ddyraniad cyllido hollol newydd i brosiectau amlflwyddyn hirdymor ac, ar yr un pryd, yn talu prosiectau presennol o raglenni 2014-2020 ar gyfer gweithgareddau hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2023. Er enghraifft, yn y flwyddyn gyntaf y cyflwynwyd rhaglenni 2014–2020 ERDF ac ESF, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod oddeutu £370m wedi'i neilltuo i fuddsoddiadau strategol, megis pecynnau cymorth ar gyfer entrepreneuriaeth a BBaChau drwy raglenni Busnes Cymru a Phrentisiaethau a rhaglenni etifeddol eraill. Ar y llaw arall, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cwmpasu

tair blynedd ariannol (2022/23 i 2024/25) ac, er ein bod bellach wedi cyrraedd diwedd 2022, nid yw llywodraeth leol wedi cael cadarnhad eto fod eu cynlluniau buddsoddi o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'u cymeradwyo a bod eu dyraniadau cyllid wedi'u rhyddhau.

Mae'r broses araf o gynyddu cyllid ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn golygu bod y dyraniad i Gymru ond yn cyfateb i gronfeydd blynyddol blaenorol yr UE erbyn 2024-25. Mae'n bwysig cofio bod rhaglenni'r UE yn rhoi sicrwydd cynllunio dros gyfnod o 10 mlynedd. Y bwriad bob amser oedd y byddai llawer o'r prosiectau mwy o faint yn y cylch cyllido presennol, megis cymorth i ddatblygu Metro De Cymru, yn digwydd ar ddiwedd cyfnod y rhaglenni.

Ar y llaw arall, nid oes unrhyw addewid pendant y caiff cyllid ei ddarparu yn lle cronfeydd yr UE ar ôl cylch cychwynnol y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i lenwi'r bwlch cyllid mewn blynyddoedd cynharach yn y dyfodol a dyna pam mae Cymru a rhannau eraill o'r DU ar eu colled. Esbonnir yr £1.1 biliwn a gollir i Gymru drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn natganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru sydd ar gael yma. At hynny, mae Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU ar 17 Tachwedd yn gostwng cyfanswm gwerth y Gronfa Ffyniant Gyffredin a fydd yn rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar economi Cymru.

Fel rhan o'i pharatoadau ar gyfer Adolygiad o Wariant y DU 2021, gofynnodd Trysorlys EF am ein hamcangyfrif o symiau terfynol a dderbynnir gan yr UE ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE ac ar gyfer EAFRD (cyllid i ffermydd). Mae'n anochel y bydd yr wybodaeth a ddarparwyd ym mis Hydref 2022 cyn yr Adolygiad hwn o Wariant yn rhoi ciplun o rywbeth dynamig ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg honno. Bydd y sefyllfa nawr yn wahanol iawn am fod proffiliau gwariant prosiectau yn newid ac yn amrywio'n sylweddol oherwydd amrywiaeth o ffactorau allanol fel y nodwyd yn ein hymateb i argymhelliad 19 uchod. Rhoddwyd y wybodaeth i Drysorlys EF â'r cafeat bod Gweinidogion Cymru yn anghytuno'n llwyr ag unrhyw fethodoleg ar gyfer cyllid i ddisodli cronfeydd yr UE a oedd yn cynnwys debydu symiau terfynol gan yr UE.

| Darparwch y data ar ffurf miliynau o Ewros. | | Rhaglen | Blwyddyn Ariannol | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 |
| Hanesyddol | Proffil gwariant ar lefel rhaglen | ESF | | 2.84 | 102 | 88.01 | 73.7 | 89.61 | 191.28 | | | | |
| | | ERDF | | 1.25 | 87.72 | 102.69 | 132.09 | 148.28 | 159.09 | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | Derbyniadau o'r UE (o'r Comisiwn Ewropeaidd) | ESF | 9.45 | 37.81 | 67.36 | 193.38 | 57.00 | 271.54 | 82.79 | | | | |
| | | ERDF | 26.45 | 39.67 | 64.58 | 107.87 | 140.67 | 145.4 | 140.59 | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Rhagolwg | Proffil gwariant ar lefel rhaglen | ESF | | | | | | | | 145.00 | 155.00 | 155.00 | 5.44 |
| | | ERDF | | | | | | | | 206.00 | 248.00 | 288.00 | 36.30 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | Derbyniadau o'r UE (o'r Comisiwn Ewropeaidd) | ESF | | | | | | | | 85 | 102.76 | 28.79 | |
| | | ERDF | | | | | | | | 165 | 200 | 258.2 | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |